

MARWNAD,

Er coffadwriaeth am y diweddar Barchedig John Jones, Curad Merthyr Tydvil, yr hwn a orphenodd ei yrfa ar y 10fed o Fehefin, 1838, er mawr alar i wreng a boneddig yn gyffredinol.

Mesur—"Calon Drom."

1.

Oer ochenaid, garw achwynion,
Hyll yw galar holl drigolion,
Aml ruddiau welai'n waeledd
Gan wir wylu heno'n unwedd,
O waith rhoddi Jones, wr hyddoeth,
Yn ei feddrod, wr da hynod, a dianoeth.
Pwy'n ddiuernych a all ddirnad,
Ac yn ddiau er ein gwallau ddweyd y colled.

2.

Hwn oedd enwog iawn ddiwinydd,
Athraw hynaws, ac athronydd,
A dealodd droad hollawl
Ser aneirif nen wybrenawl;
Cudeg ydoedd ben dysgawdwr,
Mewn da urddas, hyddoeth addas, wiw ieithyddwr,
A gwron doethwych cywrain dethawl,
Hardd eiriangoeth, hoenus wiwddoeth hanesyddawl.

3.

Un caredig, cywir, odiaeth,
Oedd yn deg i'r holl gym'dogaeth;
A'i lais denawl, hylwys, doniog,
Uniawn ydoedd fel gweinidog;
Dewr oedd hwn uwch pechaduriaid,
A thadmaeth diwyd, yn wir oedd hefyd, i'r ymddifaid;
I ugeiniau rhoes yn geinwedd
Fwynwch roddion o lawn galon lon ymgeledd.

4.

Ymwel'd â'r cleifion, union annedd,
Oedd ei fryd mewn doeth hyfrydwedd,
A'u cysuro trwy gais eirwedd
Ym mhob helbul gul a gwaeledd;
Yno'n eirian fe'u cynghora,
I greu'n enw'r Gwr fu farw ar Galfaria,
Fel y cawsant orwych gysur,
Tu draw i'r cauffedd, rhag dialedd a rhwyg dolur.

5.

Porthu a dilladu ydoedd,
Y tylodion gweinion gannoedd;
Y rhai'n heddyw oll a waeddant,
A llef oeraidd, Ow! llefarant,—
O! na chawn ni ein gwych anwyl
Fugail hyglood, o'r bedd—wr parod i bob perwyl,
Un fu'n gweini ini ganwaith,
Bob cynghorion o wych dirion iachawdwriaeth.

6.

Yn yr eglwys orwych, hyglood,
Mae rhyw gwynfan oer i'w ganfod,
Waith i'r angau a'i oer ingwedd
Fyn'd â'r cyfaill doeth i'r cauffedd;
Un mor fyddlon, hylon, helaeth,
Mwyn a haelwedd yn y degwedd weinidogaeth,
Amyneddgar, hoywgar agwedd,
Hardda fugail oedd, a diwael hyd y diwedd.

7.

Pa fodd gellaist, er ein gwallau,
Frenin odiaeth dychryniadau,
Dorri'n bugail byw ei agwedd,
I'r oer weryd, er hir orwedd;
Gwr mor hyddysg a defnyddiol,
Araul eirian, mwyn, a tharian Ysgrhythrol?
Ond cennad ydwyd ti, heb oedi,
I fyn'd â'r duwiol i oes-oesol fynwes Iesu.

8.

Ust! Ust! fy Awen, gwell dystewi,
Yma bellach yn ddballu,
Nis geill dynion, er pob doniau,
Fynegu'n unwedd ei rinweddau;
O blith galar oer ac wylu,
Trwy gywirdrem, mae yn Salem yn preswyllo,
Gyda'r hen gyn-deidiau dedwydd,
Yn seinio caniad i'r Oen diniwed â dawn newydd.

9.

Fry yng ngolan yr angylion,
A'r gwyn euraidd delynorion,
Yno'n addas heb ddiweddiad,
Ym mhlith miloedd o seraphiaid,
Bydd yn weddus, felus foli
Duw'n drag'wyddawl am ei radawl fwyn waredu.
Coffeir ei union, anwyl enw,
A'i wiw lafar, gwn nes elo'r dda'r yn ulw.

10.

Rho gynnorthwy, Arglwydd nerthol!
I'w berth'nasau mwyn mynwesol,
I fyw'n addas, trwy'th gyf'rwyddyd,
Yn eu galar maith a'u gofid,
A'i lon addfwyn blant ymddifad,
Drwy dy urddas, dwyn hwy'n addas dan dy nodded;
Fel b'o'u harchwaeth mewn da orchwyl,
I lanw'n ddilys le eu hoenus wiwdad anwyl.

DAVID JONES,
Neh, (DEWI GLAN TAF.) a'i Cant.

Twynyrodyn, Merthyr Tydvil.

J. E. DIBB, ARGRAFFYDD, MERTHYR TYDVIL.

W. 283. 35 (P)